# CABINET

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 13 Rhagfyr 2016 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol, Oedolion a Phlant; Huw Jones, Aelod Arweiniol Datblygu Cymunedol; Barbara Smith, Aelod Arweiniol Moderneiddio a Thai; Julian Thompson Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, y Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad ac Eryl Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol Addysg.

**Arsylwyr:** Y Cynghorwyr Meirick Davies, Martyn Holland ac Arwel Roberts

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM), Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyhoeddus (RM) a Chymunedau (NS); Penaethiaid Gwasanaeth: Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (GW) a Gwella Busnes a Moderneiddio (AS); Rheolwr Gwasanaeth Cymunedau a Lles (GG); Uwch Ymarferwr Cefnogi Pobl (KO); Swyddog Comisiynu a Thendro (LD); Prif Swyddog Cyllid (RW), a Gweinyddwr y Pwyllgor (KEJ)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Hugh Irving, Aelod Arweiniol Cwsmeriaid a Llyfrgelloedd a David Smith, Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad personol na chysylltiad sy'n rhagfarnu.

## 3 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2016.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2016 fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.*

## 5 CYNLLUN COMISIYNU LLEOL CEFNOGI POBL SIR DDINBYCH 2017-18

Cyflwynodd y Cynghorydd Bobby Feeley adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i Gynllun Comisiynu Lleol Cefnogi Pobl 2017 -18, cyn y câi ei gyflwyno ger bron y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol a Llywodraeth Cymru yn Ionawr 2017.

Roedd Cefnogi Pobl yn ffrwd ariannu gan Lywodraeth Cymru sy'n darparu cefnogaeth yn gysylltiedig â thai i bobl ddiamddiffyn, er mwyn eu galluogi i fyw mor annibynnol â phosibl ac roedd yn cyflawni nifer o ofynion Deddf Tai (Cymru) 2014, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Roedd y Cynllun yn rhoi diweddariad ar gomisiynu Cefnogi Pobl ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, gan gynnwys cynlluniau strategol a blaenoriaethau, ynghyd â chynigion i reoli gostyngiadau parhaus posibl i'r Grant Cefnogi Pobl (cafodd y cynllun ei fodelu ar y pryd ar ostyngiad 0% gan mai'r arwyddion diweddaraf oedd bod y grant ar gyfer 2017-18 wedi cael ei ddiogelu rhag toriad pellach, ond hefyd yn cynnwys cynlluniau wrth gefn ar gyfer 5%). Roedd y grant wedi'i neilltuo gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Cefnogi Pobl, fodd bynnag, byddai dyraniad y grant ac unrhyw doriadau yn cael effaith ar wasanaethau eraill. Cyfeiriwyd hefyd at yr ymgynghoriad ar y Cynllun Comisiynu Lleol ac roedd y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau wedi gwneud mân newidiadau a oedd wedi'u hadlewyrchu yn yr adroddiad.

Roedd y Cabinet yn cydnabod pwysigrwydd y Cynllun a chodwyd cwestiynau ynglŷn â'i ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd o ran atal digartrefedd, ynghyd â gwaith wrth ddatblygu'r Strategaeth Ddigartrefedd. Hefyd codwyd cwestiynau ynghylch y duedd yn Sir Ddinbych, effaith diwygiadau lles, ac addysg pobl ifanc.

Fe wnaeth yr Aelod Arweiniol a swyddogion ymateb i gwestiynau a rhoddir y sylwadau canlynol -

- ymhelaethwyd ar yr ystod o wasanaethau fel y disgrifir yn y Cynllun gyda'r nod o atal digartrefedd, a gafodd ei ddarparu i ystod eang o grwpiau ag anghenion cymhleth, a chyfeiriwyd hefyd at ddyletswyddau deddfwriaethol a datblygiad pellach o fesurau ataliol a oedd yn parhau i fod y ffocws presennol
- roedd datblygu'r Strategaeth Ddigartrefedd yn fodd allweddol o gryfhau'r dull o atal ac roedd adolygiad cynhwysfawr o ddigartrefedd yn cael ei wneud - y gobaith oedd y byddai'r Strategaeth yn ei lle erbyn mis Mawrth 2017, ac yn cynnwys camau gweithredu allweddol ar ystod o faterion ac yn gwella'r math o adnoddau sydd ar gael, gan gynnwys symud oddi wrth lety gwely a brecwast a darparu ystod well o dai
- roedd gan y rhan fwyaf o bobl a oedd yn cyflwyno eu hunain yn ddigartref faterion eraill i ddelio â nhw, fel anawsterau ariannol neu faterion yn ymwneud ag iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau a throseddu ac roedd yn hanfodol mabwysiadu ymagwedd aml-asiantaeth i sicrhau bod y lefel briodol o gefnogaeth yn cael ei rhoi
- roedd y dull partneriaeth wedi cael ei gryfhau ac ail-sefydlwyd y Fforwm Digartrefedd a oedd â rhan allweddol wrth ddatblygu'r Strategaeth Ddigartrefedd, ynghyd â'r Grŵp Llywio Atal Digartrefedd
- bu cynnydd yn nifer y bobl ifanc a oedd angen gwasanaethau yn ddiweddar, ac roedd mwy o ffocws bellach ar atal pellach fel rhan o Lwybrau Pobl Ifanc, a dull llawer mwy cydlynol i atal digartrefedd rheolaidd. Ymhelaethodd y Cynghorydd Eryl Williams ar fesurau a wnaed yn y system addysg i sicrhau bod pobl ifanc yn llai diamddiffyn i ddigartrefedd, gan gynnwys rheolaeth ariannol ac ymyrraeth gynnar

- adroddwyd ar y gwaith da a wnaed yn Sir Ddinbych yn cefnogi amrywiaeth o brosiectau gyda phartneriaid, a ariennir gan y grant Cefnogi Pobl, yn cynnwys y Lloches Tŷ Golau a agorwyd yn ddiweddar yn y Rhyl
- trafodwyd effaith newidiadau diwygio lles hefyd, a fyddai'n her fawr ac roedd dull partneriaeth yn cael ei gynnal i fynd i'r afael â'r risg honno – roedd pob asiantaeth a oedd yn cyfranogi'n ceisio mynd ati i nodi cartrefi a oedd wedi'u heffeithio'n andwyol, i sicrhau bod pobl yn cael eu paratoi ar gyfer y newidiadau
- o ran y dull rhanbarthol, roedd Sir Ddinbych wedi cymryd rôl arweiniol ac nid oedd llawer o berygl na fyddai'r cynllun rhanbarthol yn cael ei gefnogi gan yr awdurdodau lleol eraill - er bod cynllun rhanbarthol cyffredinol, roedd pob un o'r chwe awdurdod lleol hefyd wedi cael eu cynllun comisiynu eu hunain, ond roedd gan bob un cysondeb o ran dull ymyrraeth gynnar ac atal
- cafodd y broses ar gyfer ymdrin â phobl sy'n cyflwyno eu hunain yn ddigartref ei hegluro, ynghyd â'r angen i nodi pa awdurdod oedd yn gyfrifol am fynd i'r afael â'u hanghenion yn y lle cyntaf, roedd hyn yn cynnwys polisi ailgysylltu a oedd yn gysylltiedig â chyllid i ailgysylltu pobl fel y bo'n briodol.

Talodd y Cynghorydd Feeley deyrnged i'r gwaith a wnaed gan y tîm Cefnogi Pobl a -

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Cynllun Comisiynu Lleol Cefnogi Pobl ar gyfer 2017 – 2018 cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol a Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2017.*

## 6 ADRODDIAD PERFFORMIAD Y CYNLLUN CORFFORAETHOL – CHWARTER 2 – 2016/17

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad a oedd yn rhoi diweddariad i aelodau ar gyflawni Cynllun Corfforaethol 2012 - 17 fel ag yr oedd ar ddiwedd chwarter 2 o 2016/17.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys dwy brif elfen -

- Crynodeb Gweithredol - cyflawniadau manwl ac eithriadau allweddol gyda pherfformiad da yn gyffredinol. Dim ond un canlyniad wedi cael ei asesu fel Coch: Blaenoriaeth ar gyfer Gwella - Canlyniad 7 Mae myfyrwyr yn cyflawni eu potensial, a oedd yn ddangosydd blynyddol fel y trafodwyd yn flaenorol gan y Cabinet, ac yn destun archwilio gan y Pwyllgor Archwilio Perfformiad. Roedd pob canlyniad arall wedi'i werthuso fel bod yn dderbyniol neu'n well ac
- Adroddiad chwarterol llawn – wedi darparu asesiad ar sail dystiolaeth o'r sefyllfa bresennol yn canolbwyntio ar eithriadau allweddol.

Roedd eglurhad ar gyfer statws pob dangosydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad gyda materion allweddol wedi'u hegluro ymhellach yn y cyfarfod. Roedd y rhan fwyaf o feysydd yn ddangosyddion blynyddol ac ni fu fawr o symudiad ers y chwarter diwethaf.

Wrth ystyried yr adroddiad, trafododd yr Aelodau'r materion canlynol -

- nodwyd cyd-destun hanesyddol yr adroddiad ar y chwarter blaenorol ac er eglurder, cytunwyd y dylid pwysleisio hyn yn yr adroddiad i ddarllenwyr, o gofio bod materion penodol yn yr adroddiad wedi symud ymlaen ers hynny
- adroddodd y Cynghorydd Barbara Smith ar y cam symud o system y Cyngor ei hun i lwyfan e-ddysgu y GIG a oedd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd ac roedd yn hyderus y byddai e-ddysgu ar waith ar gyfer aelodau erbyn Mai 2017
- cyfeiriwyd at yr Asesiad o Effaith Lles a'i ddylanwad ar benderfyniadau ac esboniwyd y byddai'r broses yn cael ei defnyddio fel canllaw i helpu i lunio cynigion a llywio penderfyniadau, ond rhoddwyd sicrwydd mai lle'r aelodau oedd gwneud eu penderfyniadau eu hunain yn dilyn y broses honno
- Credai'r Cynghorydd Meirick Davies y dylai Adroddiad Perfformiad y Cynllun Corfforaethol ar gyfer Chwarter 2 a oedd yn atodiad i'r adroddiad fod wedi'i gyfieithu. Yn unol â pholisi'r Cyngor, cynghorodd y swyddogion fod dogfennau a anfonir at y cyhoedd yn ddwyieithog, ond o ran y pwyllgorau, nid oedd atodiadau a oedd yn fwy na phedair ochr o dudalen yn cael eu cyfieithu. Cytunwyd bod y mater yn cael ei gyfeirio at Grŵp Llywio'r Iaith Gymraeg ar gyfer ystyriaeth bellach

Wrth ystyried y meysydd hynny a oedd angen archwilio pellach, trafodwyd y materion canlynol yn fwy manwl -

- Arolwg Trigolion – roedd ymateb siomedig i'r arolwg trigolion a diffyg ystyriaeth uchel i'r Cyngor yn parhau i achosi pryder. Wrth ddarparu rhywfaint o gyd-destun i'r dangosydd, nodwyd y bu nifer fach iawn o ymatebwyr, ac roedd pobl yn gyffredinol yn debygol o ymateb os oedd ganddynt farn negyddol. Nodwyd bod yr arolwg trigolion wedi bod yn destun archwilio'n flaenorol a byddai'r fethodoleg ar gyfer cynnal yr arolwg trigolion nesaf yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Archwilio Cymunedau ddechrau flwyddyn nesaf
- Tipio Anghyfreithlon - o ystyried y cynnydd mewn achosion o dipio anghyfreithlon, roedd y Cynghorydd Martyn Holland yn awyddus i droseddwyr gael eu herlyn, ond roedd hefyd yn credu y dylai camau cyfreithiol gael eu cymryd yn erbyn y rhai sy'n defnyddio casglwyr heb drwydded i waredu gwastraff. Cyfeiriodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd at Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yn cynghori y byddai achos o'r fath yn dibynnu ar p'un a yw'r unigolyn wedi achosi neu ganiatáu'r drosedd o dipio anghyfreithlon yn fwriadol, ac wedi cymryd pob rhagofal rhesymol, ac wedi arfer pob diwydrwydd dyladwy yn y cyswllt hwnnw. Cytunwyd y dylid ymchwilio i'r potensial i erlyn yr unigolion hynny ymhellach
- Canlyniad 7 Mae myfyrwyr yn cyflawni eu potensial - roedd hwn yn ddangosydd blynyddol ac felly byddai'n aros yn goch ar gyfer 2016/17 ac roedd yn cael ei fonitro gan archwilio. Er bod y sefyllfa'n goch ar y cyfan, roedd rhai agweddau wedi cyrraedd y trothwy derbyniol a rhagorol. Cododd y Cynghorydd Arwel Roberts ei bryderon ynghylch safon yr addysg yn y sir ac yn teimlo y dylai mwy o gefnogaeth gael ei rhoi i wella safonau. Amlygodd y Cynghorydd Eryl Williams welliant cyson ar draws safonau addysgol, gan roi gwybod bod Sir Ddinbych yn gweithio tuag at darged uchelgeisiol, a dyna pam y rhoddwyd statws dangosydd coch. Fodd bynnag, roedd yn hyderus y byddai'r newidiadau a gyflwynwyd gan GwE'n codi safonau ymhellach. O ran perfformiad Cymru yn y canlyniadau PISA, cadarnhaodd y Prif Weithredwr ei fod yn faes o bryder a oedd angen mynd i'r afael ag ef

- Argaeledd band eang cyflym iawn - roedd hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth ar gyfer gwella a mynegodd yr aelodau eu rhwystredigaeth a phryderon ynghylch y cynnydd araf, diffyg gwybodaeth, a gwybodaeth anghywir gan ddarparwyr wrth gyflawni'r canlyniad hwn, gan dynnu sylw at broblemau penodol a gafwyd yn eu wardiau unigol ac effaith niweidiol ar unigolion a busnesau o ganlyniad. Teimlwyd hefyd nad oedd y broblem wedi'i chyfyngu i'r broses o gyflwyno band eang cyflym iawn a chafodd y mater ei gymhlethu gan broblemau gyda'r isadeiledd ac anawsterau gweithredol. Nodwyd bod y mater wedi bod yn destun archwilio ym mis Ebrill 2016 gan y Pwyllgor Archwilio Perfformiad ond ychydig iawn o gynnydd oedd wedi'i wneud ers hynny. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a Pharth y Cyhoedd ddiweddariad ar y sefyllfa ddiweddaraf gan ddweud bod rhagor o wybodaeth ar y gweill, ond nid oedd ar y lefel cyfeiriad eiddo yn ôl y disgwyl, ac felly gofynnwyd am y wybodaeth unwaith eto er mwyn adnabod y rhai nad ydynt wedi'u cynnwys yn y cyfnod cyflwyno. Byddai'r wybodaeth honno, ynghyd â gwybodaeth a ddisgwylir yn fuan gan OfCom am ddarpariaeth band eang gwirioneddol yn rhoi darlun cliriach o wasanaeth ar draws y sir. Teimlwyd, pan dderbyniwyd y data angenrheidiol, efallai y bydd y mater yn cyfiawnhau trafodaeth bellach yn archwilio. Wrth fynd heibio, roedd angen gwneud rhywfaint o waith i ganfod pam fod cofrestru ar gyfer band eang a'r nifer a oedd wedi manteisio ar hynny'n gyfyngedig yn yr ardaloedd hynny lle'r oedd ar gael. Ystyriodd yr Aelodau'r ffordd orau i symud ymlaen a symud y mater hwn i gasgliad boddhaol ar y cyfle cyntaf, er mwyn rhoi sicrwydd i drigolion a busnesau. Cytunwyd bod y darparwyr gwasanaeth band eang cyflym iawn yn cael eu gwahodd i'r pwyllgor archwilio perthnasol, a bod llythyr agored yn cael ei anfon at Weinidogion Cymru yn manylu pryderon aelodau.

***PENDERFYNWYD -***

*(a)* *Bod y Cabinet yn nodi cynnwys yr adroddiad;*

*(b)* *gwahodd cynrychiolwyr perthnasol y darparwyr band eang cyflym iawn i'r pwyllgor archwilio perthnasol i ateb cwestiynau ac ymateb i bryderon yr aelodau o ran y broses o gyflwyno band eang cyflym iawn yn Sir Ddinbych, ac*

*(c)* *anfon llythyr agored at Weinidogion Cymru yn nodi pryderon y Cabinet ynghylch cynnydd y broses o gyflwyno band eang cyflym iawn yn Sir Ddinbych.*

**7 ADRODDIAD CYLLID**

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill adroddiad yn nodi'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a chyllidebau gwasanaeth ar gyfer 2016/17. Darparodd grynodeb o sefyllfa ariannol y Cyngor fel a ganlyn -

- rhagwelwyd tanwariant net o £0.909 miliwn ar gyfer cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol
- roedd 68% o'r arbedion wedi'u cyflawni hyd yn hyn (targed o 5.2m) gyda 2% pellach yn gwneud cynnydd da; byddai 25% yn cael eu gohirio ac yn cael eu

cyflawni yn 2017/18 gyda dim ond 5% o’r arbedion heb eu cyflawni o fewn y terfyn amser.

- amlygodd y risgiau cyfredol a’r rhagdybiaethau yn ymwneud â meysydd gwasanaeth unigol
- diweddariad cyffredinol ar y Cyfrif Refeniw Tai, y Cynllun Cyfalaf Tai a'r Cynllun Cyfalaf (gan gynnwys elfen y Cynllun Corfforaethol).

Gofynnwyd hefyd i'r Cabinet gymeradwyo trosglwyddo tanwariant Gwasanaeth TGCh i'r Gronfa Wrth Gefn Datblygu Rhwydweithiau TG, i ariannu prosiectau moderneiddio penodol, ynghyd â dileu balansau dyledwyr amrywiol yn ymwneud â Clwyd Leisure Ltd.

Cafodd y materion canlynol eu codi yn ystod y drafodaeth  -

- o ran prosiect Ysgol Glan Clwyd, roedd y Cynghorydd Eryl Williams yn falch o gadarnhau y byddai symud i’r bloc newydd yn dechrau’r wythnos nesaf
- adroddodd y Prif Swyddog Cyllid ar ofynion Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth ôl-weithredol am y blynyddoedd blaenorol o waith mawr atgyweirio tai a fyddai'n profi'n feichus ac yn anodd ei roi, o ystyried na fu unrhyw ofyniad i gofnodi'r wybodaeth honno ar y pryd.  Roedd y swyddogion yn trafod â Llywodraeth Cymru ac yn hyderus y byddai'r mater yn cael ei ddatrys yn foddhaol.  Byddai diweddariad pellach yn cael ei ddarparu yn yr adroddiad nesaf
- Amlygodd y Cynghorydd Bobby Feeley y pwysau ariannol ar y Gwasanaethau Cefnogaeth Gymunedol a Gwasanaethau Plant, a thra gellid cynnwys y pwysau hynny yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol, roedd pryder yn y tymor hir
- trafodwyd ymhellach y cais i drosglwyddo tanwariant TGCh i'r Gronfa Wrth Gefn Datblygu Rhwydweithiau TG, gyda'r Arweinydd yn gofyn am sicrwydd ynglŷn â chysondeb o ran dull ar gyfer gwasanaethau wrth ymdrin â thanwariant, o ystyried y byddai'r tanwariant yn cael ei gadw am ddwy flynedd, ac roedd pwysau presennol mewn meysydd eraill.  Eglurodd y Cynghorydd Barbara Smith bod y tanwariant mewn TGCh yn ymwneud â gwireddu cynharach o arbedion effeithlonrwydd drwy ailstrwythuro, a'r bwriad oedd gosod y tanwariant mewn cronfa wrth gefn i helpu ariannu'r Strategaeth TGCh Gorfforaethol dros gynllun dwy flynedd yn 2017/18 a 2018/19, fel y nodwyd yn yr adroddiad.  Os nad oedd y Cabinet yn awyddus i gadw'r tanwariant i ariannu'r Strategaeth TGCh, byddai angen dod o hyd i’r cyllid o rywle arall yn y dyfodol.  Hysbyswyd yr aelodau hefyd o'r amseroedd rhagarweiniol mwy yn gyffredinol ar gyfer gwaith TGCh a bod y Strategaeth TGCh yn cefnogi meysydd gwasanaeth eraill
- Gofynnodd y Cynghorydd Meirick Davies a allai'r rhaglen CYSILL (pecyn meddalwedd sillafu a gramadeg y Gymraeg) gael ei gyflwyno ar draws y Cyngor ac awgrymwyd y gallai fod yn fater i'r Grŵp Llywio'r Iaith Gymraeg ei ystyried.  Cododd y Cynghorydd Davies bryder ynghylch ansawdd gwybodaeth dechnegol arbennig a gyfieithwyd ac adroddodd y swyddogion ar y gwasanaeth rhagorol a dderbyniwyd drwy Wasanaeth Cyfieithu Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a groesawodd adborth, er mwyn sicrhau gwelliant parhaus.  Awgrymwyd y dylai’r Cynghorydd Davies gysylltu â'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yn uniongyrchol i roi adborth yn hynny o beth.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*

(a) *nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2016/17 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb;*

(b) *cymeradwyo bod tanwariant blwyddyn gyfredol a blwyddyn flaenorol y gwasanaeth TGCh yn cael ei drosglwyddo i Gronfa Datblygu Rhwydweithiau TG i ariannu'r prosiectau moderneiddio penodol a ddisgrifir yn Adran 6 o'r adroddiad a bod y Cabinet hefyd yn derbyn adroddiadau cynnydd rheolaidd ar gyflwyno, ac yn*

(c) *cymeradwyo dileu balansau mân ddyledwyr, sy'n dod i £37,599, mewn perthynas â Clwyd Leisure Ltd sydd eisoes wedi'i ddarparu'n llawn.*

## 8 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet i'w hystyried a nododd yr aelodau'r ychwanegiadau canlynol -

- Ysgol Arfaethedig 3-16 Gatholig yn y Rhyl – Ionawr
- Stadau Amaethyddol: Fferm Bodynys, Rhewl, Rhuthun - Ionawr
- Diweddariad Asesu Llety Sipsiwn a Theithwyr – Ionawr (i'w gadarnhau)

***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.*

Daeth y cyfarfod i ben am 11.50 a.m.